



**Ymateb i adroddiad thematig Estyn ar  
Ysgolion Ffederal:  
Nodweddion cyffredin ffedereiddio effeithiol**

**Teitl yr adroddiad:**

Ysgolion ffederal: Nodweddion cyffredin ffedereiddio effeithiol.

**Manylion yr adroddiad**

Yn llythyr cylch gwaith 2018/19, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Estyn archwilio nodweddion cyffredin ffedereiddio effeithiol.

Mae'r adroddiad yn archwilio nodweddion ffedereiddio effeithiol. Mae'n nodi'r amodau, y prosesau a'r trefniadau sy'n arwain at ffederasiynau effeithiol, ac yn eu cynnal. Mae hefyd yn ystyried yr anawsterau posibl i ffederasiynau ac yn archwilio'r rhesymau pam nad yw ffederasiynau bob amser yn llwyddiannus. Mae'n nodi enghreifftiau o arfer effeithiol lle mae cyrff llywodraethol ac awdurdodau lleol wedi ffedereiddio'n llwyddiannus.

**Crynodeb o'r prif ganfyddiadau**

Mewn ffederasiynau llwyddiannus, mae arweinwyr yn gwella'r ddarpariaeth a'r deilliannau ar gyfer disgyblion trwy rannu adnoddau, systemau ac arfer dda ar draws ysgolion. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw ysgolion ffederal yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithiol i gefnogi cydweithio, ac yn enwedig cydweithio ymhlith disgyblion, ar draws safleoedd ysgol.

Gall ffedereiddio gael effaith gadarnhaol ar y gallu i arwain ar bob lefel. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i benaethiaid ymgysylltu â dysgu proffesiynol a fydd yn eu paratoi i arwain ffederasiwn neu i uwch arweinwyr a staff ysgolion ffederal rwydweithio a rhannu arfer.

Gallai ffedereiddio arwain at arbedion o ran cyllidebau i ysgolion. Mae cynyddu rôl staff gweinyddol neu gyflogi rheolwr busnes i oruchwylio cyllidebau ar draws y ffederasiwn yn aml yn arwain at ragor o arbedion ac effeithlonrwydd.

Pan fydd athrawon yn cynllunio cyfleoedd i ddisgyblion gydweithio â'u cyfoedion mewn ysgolion eraill yn eu ffederasiwn, caiff hynny effaith gadarnhaol ar fedrau cymdeithasol disgyblion a'u synnwyr o les. Caiff ffedereiddio effaith gadarnhaol hefyd ar y profiad pontio i lawer o ddysgwyr mewn ysgolion ffederal.

Yr hyn sy'n hanfodol i ffedereiddio lwyddo yw gweledigaeth glir. Ac mae angen strwythur arwain effeithiol i gefnogi'r weledigaeth honno.

**Argymhellion**

***Dylai Llywodraeth Cymru:***

**A12** – Archwilio trefniadau i helpu ysgolion ffederal i gydgyfrannu eu hadnoddau.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru:**

#### **Derbyn**

Bydd Llywodraeth Cymru'n archwilio sut y gall helpu ysgolion ffederal i rannu eu hadnoddau'n well. Byddwn hefyd yn ceisio gwella'r canllawiau ar ffedereiddio drwy bennu'r manteision a'r anfanteision posibl sy'n ymwneud â ffedereiddio ar gyfer ysgolion ac awdurdodau sy'n gwneud hynny. Yn ogystal, byddwn yn gwneud y broses ffurfiol ar gyfer ffurfio corff llywodraethu ffederal newydd yn fwy clir. Byddwn yn cydweithio â thîm Hwb i hyrwyddo'r defnydd o rannu adnoddau'n ddigidol o fewn ffederasiynau, er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau addysgu a dysgu.

#### **Manylion cyhoeddi**

Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi ar 2 Gorffennaf 2019, neu ar ôl hynny, a gellir ei weld ar wefan Estyn: [https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig?\\_ga=2.250672262.183398975.1562065008-1929955435.1559727823](https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig?_ga=2.250672262.183398975.1562065008-1929955435.1559727823).



@LIC\_Addysg



Facebook/AddysgCymru

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.  
This document is also available in English.



ISBN Digidol 978 1 83876 680 1  
© Hawlfraint y Goron Gorffennaf 2019  
WG38435